

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

# *Ardal Weinidogaeth*

# Bro Ogwen

# Esgobaeth Bangor

*Daearyddiaeth • Iaith • Cymuned*

## Ble'r ydym ni



Cymunedau gwledig a threfol, wedi'u gwasgaru dros ardal eang

## Iaith a Hunaniaeth

Cymraeg

Mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant yn rhan annatod o'n ffydd a'n hunaniaeth.

Mae tua 50% o boblogaeth Gogledd-orllewin Cymru yn siarad Cymraeg

## 162 o adeiladau eglwysig gweithredol

Gweinidogaeth leol wedi'i gwreiddio'n ddwfn

## Cadeirlan Deiniol Sant, Bangor

Mam-eglwys yr esgobaeth

## Beth sy'n diffinio'r esgobaeth hon

Cymunedau gwledig, arfordirol ac wedi'u gwasgaru
Cadarnle'r Gymraeg
Cyd-destunau amrywiol: prifysgol, twristiaeth, ffermio
Yr Eglwys wedi'i gwreiddio ym mywyd y gymuned

**Esgobaeth Bangor**
The Diocese of Bangor



# *Cyflwyno Bro Ogwen*

Mae Ardal Weinidogaeth Bro Ogwen yn dwyn ynghyd chwe chynulleidfa eglwysig sy'n gwasanaethu Bethesda, Dyffryn Ogwen a'r pentrefi rhwng Bangor a godre Eryri.

Mae Bro Ogwen yn ardal Gymreig falch, gyda chysylltiad cryf â hanes, diwylliant a chynefin. Mae etifeddiaeth y chwarel, bywyd cymunedol ac Anghydffurfiaeth Gymreig yn parhau'n rhan o stori Bro Ogwen heddiw.

Rhan bwysig o'r stori honno yw'r berthynas rhwng Bethesda a Stâd y Penrhyn. Mae olion y Streic Fawr, rhwng 1900 a 1903, yn dal i gael eu teimlo'n gryf yn lleol. Daeth creu Bro Ogwen yn 2014 â chymunedau a gysylltir â'r ddwy ochr o'r hanes hwnnw ynghyd i ffurfio un Ardal Weinidogaeth.
Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Bro Ogwen wedi datblygu ymdeimlad cryfach o hunaniaeth a diben cyffredin. Credwn fod hyn yn dangos sut y gall yr Efengyl ddod â chymod a chyd-ddealltwriaeth, yn enwedig mewn mannau lle mae'r hanes wedi bod yn boenus.

Mae gweinidogaethau cymunedol ac arloesol newydd bellach wedi tyfu, gan gynnwys addoliad awyr agored Eglwys Wyllt a chefnogaeth galar gyda Caffi Colled, gan greu perthnas newydd a chyfleoedd cenhadol y tu hwnt i'n lleoliadau eglwysig traddodiadol.

Mae partneriaethau hefyd yn cael eu datblygu gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Tirwedd Lechi Gogledd Orllewin Cymru, gyda photensial i gefnogi cenhadaeth a chynaliadwyedd Eglwys Crist, Glanogwen yn y dyfodol.








Mae Bro Ogwen yn wynebu heriau wrth gynnal ei bywyd a'i gwaith. Fodd bynnag, mae'r cynulleidfaoedd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn mynd i'r afael â materion pwysig, megis stiwardiaeth a chyfuno cyllid. Mae hiwmor da, caredigrwydd ac ymrwymiad cyffredin i weinidogaeth leol sydd wedi ei gwreiddio yng nghymeriad unigryw'r ardal hon. Mae gennym hefyd dirwedd fynyddig drawiadol.

Bydd yr Arweinydd Ardal Weinidogaeth nesaf yn etifeddu eglwysi sy'n gwerthfawrogi cydweithio, creadigrwydd a hunaniaeth leol. Mae hwn yn gyfle i arwain Ardal Weinidogaeth sy'n magu hyder, yn dyfnhau ei phartneriaethau ac yn ceisio gwasanaethu ei chymunedau'n ffyddlon.

# *Bywyd yr Eglwys*

## Eglwys Crist, Glanogwen, Bethesda


Gan Tom Pennington, CC BY-SA 2.0,

Cysegrwyd Eglwys Crist, Glanogwen ym 1856, yn ystod cyfnod o dwf cyflym ym Methesda wrth i'r diwydiant llechi ail-lunio Dyffryn Ogwen. Ers 170 o flynyddoedd, mae'r eglwys wedi bod yn rhan o fywyd y dref.

Bydd yr eglwys yn nodi ei phen-blwydd yn 170 oed yn 2026. Mae'r digwyddiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys cerddoriaeth, adrodd straeon, barddoniaeth a hanes lleol, gan adlewyrchu lle Eglwys Crist yn stori Bethesda a'r dyffryn ehangach.

Mae'r pen-blwydd hefyd yn gyfle i edrych ymlaen. Mae Eglwys Crist wedi sicrhau cyllid i wneud gwaith atgyweirio, gwella mynediad a darparu cyfleusterau newydd. Gallai'r gwaith hwn helpu'r adeilad i gynnal ystod ehangach o addoliad, gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau cymunedol yn y blynyddoedd i ddod.

Y nod yw gofalu am dreftadaeth yr eglwys tra'n gwneud yr adeilad yn fwy defnyddiol a chroesawgar i bobl Bethesda a Dyffryn Ogwen heddiw.

## Eglwys y Groes, Tal-y-bont



Adeiladwyd Eglwys y Groes gan deulu’r Penrhyn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a’i chysegru ym 1892. Disodlodd yr eglwys gynharach gerllaw, Eglwys Sant Daniel, a adwaenid yn lleol fel Ysgoldy ac a ddefnyddid ar gyfer cyfarfodydd achlysurol a digwyddiadau cymdeithasol. Mae mynwent sy’n cael ei chynnal a’i chadw’n dda o amgylch Eglwys y Groes.

Mae gan Eglwys y Groes gynulleidfa sefydlog ac ymroddedig, llawer ohonynt â chysylltiadau hir â’r eglwys a’r ardal. Mae cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau teuluol a chymunedol hynny, ac i annog pobl iau a theuluoedd i deimlo’n fwy rhan o fywyd yr eglwys.

Mae Eglwys y Groes yn ceisio cynnal perthynas dda â’r gymuned leol ac yn cefnogi digwyddiadau a gynhelir gan eglwysi eraill yn yr Ardal Weinidogaeth, gan gynnwys Capel Bethlehem.

Mae gan yr eglwys ei phwyllgor ei hun, gyda chyfrifoldeb dros Eglwys y Groes, Ysgoldy a’u cyllid.

## Eglwys y Santes Fair, Gelli, Tregarth

Mae'r Santes Fair yn eglwys groesawgar gyda chynulleidfa o wahanol oedrannau. Mae nifer o bobl newydd wedi ymuno yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r eglwys yn awyddus i adeiladu ar hyn.

Fel arfer, cynhelir gwasanaeth yn Nhregarth bob wythnos. Mae gan yr eglwys gyfleusterau da, gan gynnwys mynediad i bobl anabl, toiledau ac ardal gegin. Mae rhywfaint o le parcio y tu allan, ac mae tir yr eglwys a'r fynwent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae gan y Santes Fair berthynas hirsefydlog ag ysgol eglwysig y pentref, ac mae'n cynnal gwasanaethau i'r ysgol o bryd i'w gilydd. Mae hwn yn gyswllt pwysig, ac mae'r eglwys yn awyddus i gryfhau ei pherthynas â'r staff, y disgyblion a'r teuluoedd.

Cynhelir digwyddiadau codi arian a chymdeithasol drwy gydol y flwyddyn. Arweinir y rhain gan wardeiniaid yr eglwys a'u cefnogi gan y gynulleidfa. Maent yn helpu gyda chynnal a chadw'r eglwys, ond hefyd yn cynnig ffordd o groesawu pobl o'r gymuned ehangach.

## Eglwys y Santes Fair a'r Santes Ann, Mynydd Llandegai

Ar ôl i adeilad mawr ac amlwg Eglwys y Santes Ann gau ym 1996, cafodd eglwys genhadol yn y pentref, sef y Santes Fair, ei hadnewyddu â chyfleusterau newydd. Ailagorodd yn 2000 fel y Santes Fair a'r Santes Ann. Mae ganddi gynulleidfa fach ac amrywiol, gyda chalon draddodiadol a pharodrwydd i addasu pan fo angen. Mae'r eglwys wedi dod i arfer â bod yn hunangynhaliol, sy'n rhoi i unrhyw ficer newydd grŵp ymroddedig o bobl sy'n barod i gynnig cefnogaeth ymarferol a gweddigar.

Mae sylfaen dda ar gyfer twf. Mae'r Santes Fair a'r Santes Ann yn gynnes ac yn groesawgar, gyda chysylltiadau sefydledig yn y gymuned leol. Hoffai'r gynulleidfa adeiladu ar y cysylltiadau hyn, yn enwedig gyda theuluoedd iau a phlant.

Mae'r eglwys yn ddwyieithog, ac mae'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn addoliad a bywyd eglwysig yn bwysig i'r gynulleidfa. Mae hyn yn rhoi rôl bwysig i'r eglwys mewn cymuned lle mae iaith a hunaniaeth leol yn bwysig.

# Eglwys Sant Cedol, Pentir



Wedi'i hadeiladu ym 1848, mae Sant Cedol yn eglwys groesawgar a dwyieithog sydd ag awydd i wasanaethu'r gymuned ac annog pobl o bob oed i gymryd rhan mewn addoliad a bywyd eglwysig. Mae ganddi ystafelloedd cyfarfod yn y pen gorllewinol sydd wedi eu haildrefnu, gyda chynlluniau i ymestyn y gofod hwnnw a chyflwyno cyfleusterau toiled.

Mae'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi dysgeidiaeth Feiblaidd, gweddi a gofal bugeiliol, ac mae am edrych y tu hwnt i adeilad yr eglwys yn ei gweinidogaeth. Mae ganddi gynulleidfa ymroddedig, sy'n barod i gael ei hannog, ei herio a'i harwain i gam nesaf y weinidogaeth.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Sant Cedol wedi cynnal cyfres lwyddiannus o ddigwyddiadau cymunedol a chenhadol, gan gynnwys gwyliau coed Nadolig, sgyrsiau hanes lleol a gwasanaethau ysgol tymhorol. Bu'r rhain o gymorth mawr wrth godi arian i gwblhau gwaith atgyweirio i dalcen gorllewinol yr eglwys a'r clochdy.

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai





Sant Tegai yw eglwys blwyf hynaf Bro Ogwen, ac mae wedi bod yn bresenoldeb Cristnogol yn Nyffryn Ogwen ers y ddeuddegfed ganrif. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II*. Mae'n gwasanaethu pentref Llandygai a'r ardal gyfagos, gyda chynulleidfa sy'n dod o'r pentref, Bangor, Bethesda a thu hwnt. Mae'r addoliad yn draddodiadol ac yn ddwyieithog. Mae Sant Tegai hefyd yn cynnal addoliad canol wythnos a rhai gwasanaethau ar y cyd ag eglwysi cyfagos.

Mae gan yr eglwys gysylltiadau agos ag ysgol eglwysig y pentref. Cynhelir gwasanaethau ysgol yn Sant Tegai ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn, ac mae'r llywodraethwyr sefydledig bob amser wedi bod yn weithgar ym mywyd yr ysgol. Mae hon yn berthynas bwysig, gyda chyfle i ddatblygu cysylltiadau pellach â phlant, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Ers dros 20 mlynedd, mae Sant Tegai wedi agor ei drysau bob dydd i ymwelwyr o'r Pasg hyd at Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf, ac mae'n cynnig teithiau tywys dwyieithog ar gais i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Penrhyn, cymdeithasau hanes lleol a chymdeithasau eraill.
Yr eglwys yw canolfan hyfforddi Canwyr Clychau Llandygai a Chymdeithas Myfyrwyr Prifysgol Bangor, sy'n canu'r chwe chloch cyn gwasanaethau ac ar achlysuron lleol a chenedlaethol arbennig.

# *Diddordeb?*

Rydym yn chwilio am Arweinydd Ardal Weinidogaeth a fydd yn dod i adnabod ein heglwysi a'n cymunedau, ac yn gweithio gyda ni gydag amynedd, gofal ac anogaeth.

Rydym yn gobeithio croesawu offeiriad sy'n gallu helpu pobl o bob oed i dyfu mewn ffydd, gyda ffocws penodol ar bobl ifanc a theuluoedd. Mae ein cynulleidfaoedd yn heneiddio, felly rydym am feddwl yn onest ac yn greadigol am sut mae ein heglwysi'n cysylltu â chenedlaethau newydd.
Rydym yn chwilio am Arweinydd Ardal Weinidogaeth a fydd yn ein hannog i weithio'n agosach gyda'n gilydd. Mae awydd eisoes i ddatblygu addoliad ar y cyd, gweithgareddau ar y cyd ac ymdeimlad cryfach o fywyd cyffredin ar draws yr Ardal Weinidogaeth.

Bydd yr Arweinydd Ardal Weinidogaeth nesaf yn cydnabod pwysigrwydd cenhadaeth a gweinidogaeth ar-lein, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, i rannu newyddion, hyrwyddo digwyddiadau a helpu pobl i gadw mewn cysylltiad. Rydym yn arbennig o awyddus i gefnogi a datblygu gweinidogaeth leyg, gan gynnwys hyfforddi ac annog arweinwyr addoliad ar draws y chwe eglwys.

Edrychwn ymlaen at groesawu offeiriad a fydd yn gweddïo gyda ni, yn ein herio, yn ein hannog, ac yn ein helpu i wasanaethu ein cymunedau gyda hyder a phwrpas.

# *Y Broses Benodi*

Dylid dychwelyd ffurflen gais wedi'i chwblhau at Archddiacon Bangor:
davidparry@cinw.org.uk / 07403 635 510

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Archddiacon David

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

bangor.eglwysyngnghymru.org.uk